Oes rhywun rydych yn ei adnabod ar goll?

Yr hyn ddylech ei wybod

Taflen wybodaeth 1

Mae'n brofiad ysgytiol pan fod person yn mynd ar goll ond mae'n hanfodol i chi weithredu yn syth, yn enwedig pan gall y person fod mewn perygl.

- Archwiliwch ei gartref neu'r lle olaf y'i gwelwyd rhag ofn bod y person yn cuddio neu ei fod wedi cwympo ac wedi'i anafu. Cofiwch y gall plant guddio mewn mannau bach a chul
- Edrychwch am unrhyw nodiadau neu gliwiau sy'n awgrymu ble maent wedi mynd
- Gwiriwch a ydynt wedi gadael neges ffôn neu e-bost i chi
- Cysylltwch â pherthnasau, ffrindiau a lle gwaith y person i sicrhau ei fod ar goll mewn gwirionedd a ddim mewn man annisgwyl

Gall fod yn ddefnyddiol cadw cofnod mewn nodlyfr o bopeth yr ydych wedi'i wneud (gan gynnwys galwadau ffôn) ac unrhyw beth sy'n ymddangos yn anghyffredin neu'n ddrwgdybus i helpu'r heddlu a thynnu sylw at beth sydd i'w wneud o hyd.

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n mynd ar goll yn dychwelyd neu'n cael eu darganfod o fewn 48 awr, dim ond oddeutu 1% sydd ar goll am fwy na blwyddyn. Er hyn, os ydych wedi sylwi bod rhywun ar goll ac rydych yn bryderus, cysylltwch â'ch heddlu lleol i'w hysbysu yn syth – cofiwch, **nid oes** angen i chi aros 24 awr cyn dweud wrth yr heddlu.

Hysbysu'r heddlu am berson coll

Ffoniwch eich llu heddlu lleol neu ymwelwch â'ch swyddfa heddlu leol. Yng Nghymru a Lloegr gallwch ddeialu y rhif di-argyfwng 101 i gysylltu â'ch llu heddlu lleol neu gallwch ddarganfod rhif ffôn penodol eich heddlu lleol yn y llyfr ffôn, ar wefan y llu heddlu neu ar lein ar www.police.uk/?view=force_sites.

Os yw'n argyfwng a chredwch fod y person coll mewn perygl, deialwch 999.

Bydd yr heddlu yn cymryd y manylion ac yn rhoi cyfeirnod i chi. Gwnewch nodyn o'r rhif a chadwch gofnod o unrhyw wybodaeth arall a roddir i chi.

Rhowch wybodaeth fanwl i'r heddlu

Bydd yr heddlu yn cymryd adroddiad manwl gennych a byddai'n ddefnyddiol petaech yn medru darparu:

- Enw llawn a dyddiad geni y person coll
- Disgrifiad o'r person coll, gan gynnwys y dillad a'r gemwaith yr oeddynt yn eu gwisgo (os yw'n hysbys i chi)
- Llun diweddar o'r person coll
- Pryd y'i gwelwyd ddiwethaf a gan bwy
- Beth oedd y person yn bwriadu ei wneud y tro diwethaf y'i gwelwyd (e.e. mynd i'r gwaith neu ymweld â ffrind) ac a wnaethant gyflawni hyn
- Ydi'r person coll yn berchen ar ffôn symudol ac ydi e gyda nhw. Rhowch y rhif ffôn i'r heddlu ac esboniwch beth sy'n digwydd pan yr ydych yn ceisio ei ffonio
- Enwau, cyfeiriadau a rhifau cyswllt perthnasau a ffrindiau agos
- Unrhyw amgylchiadau perthnasol sy'n gwneud y person coll yn agored i niwed, er enghraifft:
    - Newidiadau diweddar yn ei ymddygiad ac unrhyw ymddygiad anarferol
    - Problemau teuluol neu broblemau mewn perthynas
    - Cyflyrau meddygol perthnasol sy'n gwneud y person yn agored i niwed, manylion unrhyw feddyginiaeth maent yn ei chymryd ac a ydi'r feddyginiaeth yn debygol o fod gyda nhw
    - Problemau ariannol neu broblemau'n ymwneud â gwaith
    - Problemau yn yr ysgol neu'r coleg/brifysgol
    - Dioddef o fwlïo neu eraill yn aflonyddu arnynt
    - Problemau alcohol neu gyffuriau
    - Dioddef o iselder ysbryd neu rydych yn amau ei fod yn hunan niweidio
    - Wedi ystyried neu geisio cyflawni hunanladdiad
    - Unrhyw amheuaeth fod y person wedi'i herwgipio neu wedi ei anafu gan berson arall
    - Unrhyw wybodaeth arall sy'n awgrymu bod y person yn agored i niwed neu mewn perygl

Yr hyn fydd yr heddlu yn ei wneud

Bydd yr heddlu yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi'i darparu i asesu pa mor agored yw'r person i niwed. Bydd yr heddlu yn ystyried pob trywydd ymholi sy'n addas ac angenrheidiol o dan yr amgylchiadau. Os na ddarganfyddir y person coll ar ôl yr ymholiadau cychwynnol, bydd yr ymchwiliad yn cael ei drosglwyddo i heddwas/wraig p/benodedig yn y swyddfa heddlu a fydd yn ymdrin â phob ymholiad pellach. Gall yr heddwas/wraig fod yn unigolyn enwebedig neu, mewn rhai amgylchiadau, yr heddwas/wraig ar ddyletswydd ar y pryd.

Gall ymholiadau nodweddiadol gynnwys, er enghraifft:

- Archwilio cartref y person coll
- Chwilio yr ardal lle gwelwyd y person coll ddiwethaf (os yn wahanol i'w cartref)

- Cysylltu ag ysbytai lleol
- Archwilio ffônau symudol a chyfrifiaduron a ddefnyddir gan y person coll
- Cynnal ymholiadau o dŷ i dŷ
- Archwilio gwybodaeth o gamerâu diogelwch (*CCTV*)
- Gweithio gyda'r wasg i godi ymwybyddiaeth ac apelio am wybodaeth gan y cyhoedd
- Chwiliadau arbenigol e.e. gan ddefnyddio hofrenyddion, deifwyr neu gŵn (yn benodol mewn achosion lle bod perygl mawr o niwed i'r person coll)

Cymorth a chefnogaeth ychwanegol

Gall fod yn ddirdynnol pan â person ar goll. Cymerwch ofal o'ch hun gorau gellwch a pheidiwch â bod ag ofn gofyn i eraill am gymorth a chefnogaeth. Gall yr elusen *Missing People* roi cyngor, cefnogaeth a chymorth a chyhoeddusrwydd i chi. Mewn rhai amgylchiadau, gall *Missing People* geisio cysylltu â'r person coll a siarad â hwy ar eich rhan. Mae hefyd ganddynt gysylltiadau â'r elusen Gymreig, *Missing Wales*.

Cysylltwch â *Missing People* ar:

116 000 (am ddim)

Gwefan: www.missingpeople.org
E-bost: info@missingpeople.org

Cysylltwch â *Missing Wales* ar:

08000 12 12 17 (am ddim)
01994 419 006
07967 503 439

Gwefan: www.missingwales.co.uk
E-bost: janet@missingwales.co.uk

Beth i wneud os daw'r person coll yn ôl neu y caiff ei ddarganfod

Os bydd eich perthynas neu'ch ffrind yn dychwelyd ar ôl i chi hysbysu'r heddlu ei fod ar goll, mae rheidrwydd arnoch i chi gysylltu â'r heddlu i ddweud wrthynt. Mae'n bosib y bydd yr heddlu am weld y person i gadarnhau ei fod wedi dychwelyd a'i fod yn ddiogel a holliach.

Os hoffech fwy o wybodaeth, gellir lawr lwytho ffurflen wybodaeth fanwl ynglŷn â beth i'w wneud pan â rhywun ar goll o wefan y Missing Persons Bureau ynghyd â chanllawiau'r heddlu ar ymchwiliadau pobl coll:

www.missingpersons.police.uk/

Ni ellid cadarnhau bod gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gynnig gan unrhyw fudiad a enwir yn y daflen hon.

Gallwch ddefnyddio'r blychau isod i gofnodi gwybodaeth a gwneud nodiadau e.e. wrth baratoi ar gyfer siarad â'r heddlu. Peidiwch â phoeni os na fedrwch ddarparu gwybodaeth ym mhob adran, llenwch yr hyn a allwch i gynorthwyo'r heddlu â'u hymchwiliad.

1. Ynglŷn â'r person coll	**Nodwch gymaint o wybodaeth â phosib yma**
Enw llawn a chyfeiriad	
Oed a dyddiad geni	
Disgrifiad • Taldra • Siâp y corff (e.e. tenau, canolig, mawr) • Gwedd ethnig (e.e. Gwyn, Asiaidd, Affricanaidd-Garibïaidd) • Lliw llygaid • Lliw a steil gwallt • Yn gwisgo sbectol neu lensiau golwg	
Unrhyw nodweddion trawiadol e.e. tatŵs, creithiau, manau geni neu unrhyw nodwedd arall gwahaniaethol?	
A oes gennych lun (ffotograff) diweddar?	
Os credwch fod y person coll yn cario ffôn symudol, nodwch y rhif ffôn a'r rhwydwaith (e.e. Orange, Vodafone) yma os yw'n hysbys i chi	
Ydi'r person coll yn dioddef o unrhyw gyflwr meddygol, gan gynnwys, anhawsterau meddyliol? A ydynt yn cymryd meddyginiaeth ac a ydi'r meddyginiaeth yn debygol o fod gyda nhw?	
Ym mha amgylchiadau yr aeth y person ar goll a ble y'u gwelwyd ddiwethaf?	
2. Gwybodaeth bwysig	
Enw a rhif cyswllt yr heddwas/wraig	
Cyfeirnod yr heddlu	

Not protectively marked